



Adnodd ar gyfer gweithwyr sy'n newydd i weithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru

Adnodd ar gyfer gweithwyr sy'n newydd i weithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru

Cyhoeddwyd gyntaf: 21 May 2025

Diweddariad olaf: 28 May 2025

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/gweithwyr-gofal-cymdeithasol/adnodd-ar-gyfer-gweithwyr-syn-newydd-i-weithio-ym-maes-gofal-cymdeithasol-yng-nghymru> am y fersiwn diweddaraf.

Cynnwys y dudalen

- [1. Cyflwyniad](#)
- [2. Gofal cymdeithasol yng Nghymru](#)
- [3. Dechrau arni](#)
- [4. Llesiant](#)
- [5. Rheoleiddio](#)
- [6. Gofal Cymdeithasol Cymru](#)

Cynnwys y dudalen

- [1. Cyflwyniad](#)
- [2. Gofal cymdeithasol yng Nghymru](#)
- [3. Dechrau arni](#)
- [4. Llesiant](#)
- [5. Rheoleiddio](#)
- [6. Gofal Cymdeithasol Cymru](#)

Cyflwyniad

Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru yn darparu gofal a chymorth hanfodol i'r bobl sy'n byw yma. Rydym ni'n croesawu ac yn gwerthfawrogi eich cyfraniad.

Rydym ni eisiau eich helpu chi i deimlo'n gartrefol ac yn rhan o'r gymuned yng Nghymru.

Mae diwylliant Cymru yn unigryw gyda'i iaith, arferion, gwyliau, cerddoriaeth, celf, bwyd, chwedloniaeth, hanes a gwleidyddiaeth ei hun. Mae Cymru'n wlad ddwyieithog, lle rydym ni'n siarad Cymraeg a Saesneg.

Yn Gofal Cymdeithasol Cymru, ein nod yw gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ofal a chymorth i blant, oedolion a'u teuluoedd a'u gofalwyr.

Mae ein rôl yn cynnwys:

- Cofrestru a rheoleiddio: Sicrhau bod gweithwyr gofal cymdeithasol yn cyrraedd safonau proffesiynol
- Gwella a datblygu: Darparu adnoddau, hyfforddiant a chyfleoedd i ddatblygu
- Arloesedd ac ymchwil: Hyrwyddo dulliau newydd a chasglu data i wella gwasanaethau.

Rydym ni eisiau gwneud yn siŵr bod gennych chi'r wybodaeth iawn i'ch helpu chi i ddechrau ar eich gyrfa ym maes gofal cymdeithasol, neu i barhau â thaith eich gyrfa, yng Nghymru.

Rydym ni wedi llunio'r canllaw hwn i dynnu sylw at yr adnoddau sydd ar gael i chi i'ch helpu chi i ymgartrefu yma yng Nghymru.

Gallwch chi ddefnyddio'r canllaw hwn i gefnogi proses gynefino arferol eich cyflogwr. Cewch adnoddau a syniadau defnyddiol i'ch rhoi ar ben y ffordd. Dylech chi ddarllen y canllaw hwn ochr yn ochr â pholisi a gweithdrefnau eich cyflogwr.

Bydd eich cyflogwr yn eich cefnogi chi a datblygiad eich gyrfa, ond mae'n bwysig bod yr holl weithwyr hefyd yn gyfrifol am eu datblygiad proffesiynol eu hunain drwy gydol eich gyrfa.

Gofal cymdeithasol yng Nghymru

Mae gofal cymdeithasol yn golygu pethau gwahanol ac mae'n cael ei ddarparu'n wahanol ar draws y byd.

Mae'r fideos byr hyn yn cyflwyno gofal cymdeithasol yn benodol yng Nghymru:

[Beth ydy gofal cymdeithasol?](#)

[Sut mae gofal cymdeithasol yn gweithio yng Nghymru?](#)

Mae gofal cymdeithasol yng Nghymru yn seiliedig ar [Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#).

Mae gwefan [Gofalwn Cymru](#) yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am [wahanol rolau ym maes gofal cymdeithasol](#), [straeon gan weithwyr ledled Cymru](#) yn siarad am sut beth yw gweithio ym maes gofal cymdeithasol, ac [adnoddau](#) am ofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu adnodd i gefnogi [gweithwyr rhyngwladol mewn gofal cymdeithasol i ymgartrefu yng Nghymru](#).

Dechrau arni

Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan

Ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol newydd, bydd eich cyflogwr yn sicrhau eich bod chi'n cael cyflwyniad llawn i'ch rôl, sy'n cynnwys cwblhau [Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan](#).

Dylai gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n newydd i'r sector, y sefydliad neu'r swydd hefyd gwblhau Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan. Mae'r [fframwaith](#) wedi'i rannu'n saith adran sy'n ymwneud â'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y bydd eu hangen arnoch yn ystod eich cyfnod sefydlu.

Mae hefyd yn cynnwys [modiwlau dysgu digidol](#) sy'n ymdrin â'r cod ymarfer proffesiynol, pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a'i diwylliant, a deddfwriaeth sy'n cefnogi dull sy'n seiliedig ar hawliau.

Gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso

I weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso mae canllawiau [y tair blynedd gyntaf o ymarfer](#). Bydd angen i unrhyw un sy'n cymhwyso ar ôl mis Ebrill 2016 gwblhau [rhaglen gadarnhau](#) yn y tair blynedd gyntaf. Rydym ni hefyd yn annog gweithwyr cymdeithasol sydd â chymwysterau rhyngwladol i gwblhau'r rhaglen hon os gwnaethoch chi gymhwyso cyn mis Ebrill 2016, ond dewisol yw hyn.

I gofrestru fel gweithiwr cymdeithasol, mae angen i chi gael cymhwyster sydd wedi'i asesu fel un sy'n cyfateb i addysg gwaith cymdeithasol yng Nghymru. Mae gwybodaeth am [gofrestru os ydych chi wedi cymhwyso y tu allan i'r DU](#) ar gael ar ein gwefan.

Mae'r teitl gweithiwr cymdeithasol wedi'i ddiogelu. Dim ond pobl sydd â chymhwyster gwaith cymdeithasol ac sydd wedi cofrestru sy'n gallu ymarfer fel gweithwyr cymdeithasol. Mae mwy o wybodaeth am [gymwysterau gwaith cymdeithasol yma](#).

Cymwysterau

Mae angen i unrhyw un a fyddai'n hoffi gweithio ym maes gofal cymdeithasol, gofal plant a'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru feddu ar gymhwyster sydd wedi'i restru yn y [fframwaith cymwysterau](#). Os oes gennych chi gymhwyster rhwngwladol nad yw ar y rhestr, [gallwch chi ofyn i ni asesu eich cymhwyster](#).

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am gymwysterau, mae gennym ni swyddogaeth 'sgwrsio' ar ein gwefan i'ch helpu. Gallwch chi hefyd siarad â'ch cyflogwr.

Diogelu

Mae arferion diogelu yn wahanol mewn gwledydd eraill. Mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu yng Nghymru. Mae gwybodaeth am [Weithdrefnau Diogelu Cymru](#) ar gael ar ein gwefan neu drwy'r ap, sydd ar gael yn y siop apiau ar gyfer eich dyfais.

Bydd [modiwl e-ddysgu](#) diogelu Grŵp A yn rhoi cyflwyniad a dealltwriaeth ymarferol i chi o ddiogelu. Gallwch chi nodi pa [hyfforddiant grŵp](#) sydd ei angen ar gyfer eich swydd chi yma.

Hefyd ar ein gwefan, mae gennym ni [adnoddau ac astudiaethau achos](#) i'ch helpu chi.

Dylech chi ddefnyddio'r adnoddau hyn ochr yn ochr â pholisi a gweithdrefnau diogelu eich cyflogwr.

Ar 21 Mawrth 2022, ymunodd Cymru â mwy na 60 o wledydd ledled y byd i wahardd cosbi plant yn gorfforol yn unol â'r Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020.

Mae hyn yn golygu bod yr un amddiffyniad rhag ymosodiadau i blant yng Nghymru ag sydd i oedolion, ac mae'n golygu bod cosbi plant yn gorfforol wedi'i wahardd ym mhob

Ileoliad yng Nghymru.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan [Gweithdrefnau Diogelu Cymru](#).

Ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau

Ystyr ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau yw pan rydym ni'n gweithio gydag unigolyn i ddeall beth sy'n bwysig iddyn nhw. Rydym ni'n datblygu dealltwriaeth o'r hyn sydd angen digwydd i helpu'r unigolyn i fyw'r bywyd gorau posibl, gan ganolbwyntio ar ei lesiant cyffredinol.

Mae rhagor o wybodaeth am [ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau ar gael ar ein gwefan](#).

Rydym ni wedi llunio [modiwl e-ddysgu](#) sy'n cynnwys gwybodaeth am ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau, a deddfwriaeth sy'n cefnogi dull sy'n seiliedig ar hawliau.

Yr Iaith Gymraeg a'i diwylliant

Mae diwylliant Cymru yn unigryw gyda'i iaith, arferion, gwyliau, cerddoriaeth, celf, bwyd, chwedloniaeth, hanes a gwleidyddiaeth ei hun. Rydym ni eisiau eich helpu i deimlo'n gartrefol ac yn rhan o'r gymuned yng Nghymru.

Mae Cymru'n wlad ddwyieithog, lle rydym ni'n siarad Cymraeg a Saesneg. Mae disgwyl y bydd rhywun sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth yn derbyn hyn yn eu dewis iaith. Mae derbyn gofal a chymorth yn eu dewis iaith yn golygu bod pobl yn teimlo'n fwy cyfforddus ac yn gallu deall yn iawn. Mae rhagor o wybodaeth am y 'cynnig gweithredol', a beth mae hyn yn ei olygu ym maes gofal cymdeithasol, ar gael yn [Mwy na geiriau](#).

Efallai y byddwch chi am ystyried dysgu siarad Cymraeg. Gall dysgu Cymraeg eich helpu i ddarparu gofal i bawb yng Nghymru. Gall hefyd eich helpu chi yn eich bywyd newydd yma yng Nghymru. Gallwch chi ddefnyddio [adnodd am ddim ar-lein](#) i asesu eich sgiliau Cymraeg.

Rydym ni wedi datblygu [adnodd e-ddysgu ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg](#) ar gyfer gweithwyr newydd sydd eisiau dysgu mwy am yr iaith Gymraeg, ei diwylliant a gweithio'n ddwyieithog. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y Gymraeg a dwyieithrwydd, beth mae'r gyfraith yn ei ddweud, a beth mae'n rhaid i ni ei wneud a pham.

Gallech chi ddechrau drwy ddysgu ambell ymadrodd allweddol a fyddai'n golygu llawer i'r bobl rydych chi'n eu cefnogi. Rydym ni wedi creu [cyrsiau Camau](#) mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yn arbennig ar gyfer pobl sy'n gweithio ym

maes gofal cymdeithasol.

Mae'r adnodd dysgu hyblyg hwn yn canolbwyntio ar y geiriau a'r ymadroddion Cymraeg y mae gweithwyr yn fwyaf tebygol o fod eu hangen wrth gyfathrebu â'r bobl rydych chi'n eu cefnogi.

Atal a rheoli heintiau

Dylech chi ddarllen polisïau a gweithdrefnau eich cyflogwr yn ofalus ar gyfer atal a rheoli heintiau.

Mae dulliau da i atal a rheoli heintiau yn hanfodol er mwyn cynnal amgylchedd diogel i bawb a lleihau'r risg o ledaenu heintiau a chlefydau heintus.

Rydym ni wedi datblygu cyfres o [adnoddau dysgu digidol](#) i helpu unrhyw un sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol neu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant i ddeall sut i leihau lledaeniad heintiau.

Gallwch chi gael rhagor o wybodaeth drwy [wylïo'r fideo byr hwn](#) gan Addysg a Gwellu Iechyd Cymru.

Hawliau cyflogaeth

Rydym ni'n deall bod dechrau swydd newydd mewn gwlad newydd yn gallu bod yn frawychus, cyffrous ac anodd.

Mae'n bwysig gwybod bod gennych chi hawliau cyflogaeth yma yng Nghymru, a bydd gan eich cyflogwr bolisïau a gweithdrefnau i'ch cefnogi. Dylech chi ddarllen y rhain yn ofalus a gofyn cwestiynau os nad ydych yn siŵr o unrhyw beth.

Mae gennym ni [God Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr Gofal Cymdeithasol](#) (Cod y Cyflogwyr). Mae hwn yn nodi'r safonau a ddisgwylir gan gyflogwyr gofal cymdeithasol. Mae'r cod i gyflogwyr yn canolbwyntio ar y safonau sy'n ofynnol gan gyflogwyr i sicrhau gweithlu gofal cymdeithasol diogel, medrus sy'n cael ei gefnogi'n briodol.

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, mae [ACAS \(Y Gwasanaeth Cyngori, Cymodi a Chyflafareddu\)](#) yn darparu arweiniad a chynghor ar hawliau cyflogaeth yma yn y Deyrnas Unedig.

Undebau Llafur

If you're a worker in Wales, you have the right to belong to a Trade Union. You can find out more about joining a union on [The Trade Union Congress \(TUC\) website](#).

Os ydych chi'n gweithio yng Nghymru, mae gennych chi hawl i fod yn perthyn i Undeb Llafur. Gallwch chi dod o hyn i fwy o wybodaeth ar wefan [Gyngres yr Undebau Llafur \(TUC\)](#).

Caethwasiaeth fodern

Rydym ni'n gwybod bod caethwasiaeth fodern (er ei fod yn beth prin) yn gallu digwydd yn y sector gofal cymdeithasol yma yng Nghymru. Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd difrifol.

Os ydych chi'n teimlo eich bod yn ddioddefwr caethwasiaeth, dylech chi ofyn am help cyn gynted ag y gallwch chi.

Mae gan Lywodraeth Cymru [wybodaeth am eich hawliau](#) a ble gallwch chi gael cymorth i dorri'n rhydd o gaethwasiaeth.

Mae [llinell gymorth Byw Heb Ofn](#) yn cynnig cymorth a chynghor i:

- unrhyw un sy'n profi caethwasiaeth fodern, cam-drin domestig neu drais rhywiol
- pobl sy'n adnabod rhywun sydd angen help
- ymarferwyr sy'n ceisio cynghor proffesiynol.

Llesiant

Mae eich llesiant yn bwysig.

Mae llesiant yn y gwaith yn golygu pob rhan o'n bywyd gwaith, gan gynnwys yr amgylchedd rydym ni'n gweithio ynddo, sut rydym ni'n teimlo am ein gwaith, y sefydliad a'r bobl rydym ni'n gweithio gyda.

Mae llesiant da yn y gwaith yn bwysig oherwydd:

- mae'n rhoi ymdeimlad o bwrpas a chyflawniad i ni yn ein rôl
- rydym ni'n perfformio'n well os ydyn ni'n hapusach yn y gwaith ac yn hyderus yn yr hyn rydym ni'n ei wneud, sy'n golygu ein bod ni'n gallu cefnogi pobl yn well
- mae staff sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn y gwaith yn fwy tebygol o aros gyda sefydliad.

Gallwch chi ddod o hyn i wybodaeth a [chynghor am iechyd a llesiant](#) i weithwyr gofal iechyd a'r blynyddoedd cynnar a gofal plant yma.

Gall bod yn newydd i weithio yng Nghymru deimlo'n anodd, ond bydd blaenoriaethu eich llesiant yn eich helpu chi i ymgartrefu yn eich rôl newydd. Gall eich cyflogwr eich helpu chi i deimlo'n gyfforddus yn eich gweithle, a chefnogi eich llesiant yn y gwaith.

Efallai y byddwch chi'n mynd drwy brofiadau ac amgylchiadau bywyd a allai effeithio ar eich gallu i wneud eich gwaith.

Gallai'r rhain gynnwys beichiogrwydd, y menopos, cyfrifoldeb gofalu, salwch neu fyw gyda chyflwr hirdymor. Efallai eich bod yn teimlo'n ynysig hefyd. Mae'n bwysig siarad â'ch rheolwr am unrhyw anawsterau neu heriau rydych chi'n eu hwynebu. Mae cael sgysiau agored a gonest gyda'ch cyflogwr yn bwysig i'ch llesiant.

Bydd eich rheolwr yn gweithio gyda chi i benderfynu ar y ffordd orau o'ch cefnogi, a gall wneud addasiadau i'ch helpu i barhau i weithio mewn ffordd sy'n addas i chi.

Gall y [modiwl ar-lein](#) hwn eich helpu i flaenoriaethu eich llesiant personol.

Cymorth

Mae [Canopi](#) yn cynnig gwasanaeth cymorth iechyd meddwl cyfrinachol am ddim ar gyfer staff gofal cymdeithasol a'r GIG yng Nghymru sy'n 18 oed neu'n hŷn.

Maen nhw'n cynnig gwahanol lefelau o gymorth iechyd meddwl, gan gynnwys:

- adnoddau hunangymorth
- cefnogaeth gan gyfeillion
- hunangymorth dan arweiniad
- therapïau rhithiol ac wyneb yn wyneb gydag arbenigwyr achrededig.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Mae Deddf Cydraddoldeb y DU yn gyfraith sy'n ceisio amddiffyn unigolion rhag cael eu trin yn annheg, ac i hyrwyddo cymdeithas deg a mwy cyfartal. Mae'n amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu. Ystyr gwahaniaethu yw pan fydd rhywun yn cael ei drin yn annheg neu'n wahanol oherwydd pwy ydyw, yn seiliedig ar nodweddion gwarchodedig.

Mae gwefan y [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#) yn darparu gwybodaeth am wahaniaethu. Dyma'r naw o [nodweddion gwarchodedig](#):

- oedran
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil

- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol.

Ni ddylid goddef gwahaniaethu o unrhyw fath mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru. Dylai fod gan eich cyflogwr bolisïau a gweithdrefnau i gefnogi unigolion sy'n rhoi gwybod am wahaniaethu ac i roi sylw i'r wybodaeth hon.

Dylech chi roi gwybod am unrhyw wahaniaethu rydych chi wedi'i brofi neu wedi'i weld yn eich gweithle.

Gwrth-hiliaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi [cynllun gweithredu Cymru Wrth-hiliol](#) sy'n nodi ymrwymiad i ddileu hiliaeth yng Nghymru. Ystyr gwrth-hiliaeth yw gwrthwynebu hiliaeth yn weithredol yn ei holl ffurfiau.

Dylech chi roi gwybod am unrhyw hiliaeth rydych chi'n ei brofi neu'n ei weld yn eich gweithle. Nid yw hiliaeth yn dderbyniol ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru.

LHDTC+

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi [cynllun gweithredu LHDTC+ ar gyfer Cymru](#). Mae LHDTC+ yn cyfeirio at bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol/traws, cwiar neu sy'n cwestiynu.

Uchelgais y cynllun gweithredu hwn yw troi Cymru i fod y wlad fwyaf cyfeillgar yn Ewrop i bobl LHDTC+.

Ni ddylid gwahaniaethu yn erbyn pobl sy'n cael cymorth gofal neu sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol.

Cynllun Gweithredu HIV

Mae stigma'n gysylltiedig â HIV yn annerbyniol ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio [cynllun gweithredu HIV](#) i wneud yn siŵr bod pobl yn gallu byw'n dda gyda HIV.

Mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae i sicrhau nad yw pobl gweithio yn y sector gofal cymdeithasol neu dderbyn gofal a chymorth sy'n byw gyda HIV yn wynebu

gwahaniaethu.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi creu [animeiddiad](#) i helpu i addysgu gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd am HIV, yn ogystal â mynd i'r afael â stigma sy'n gysylltiedig â HIV.

Rheoleiddio

Corff rheoleiddio yw Gofal Cymdeithasol Cymru, a'n gweledigaeth yw gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ofal a chymorth yng Nghymru o safbwynt plant, oedolion a'u teuluoedd a'u gofalmwr. Mae angen i weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru gofrestru gyda ni.

Ar hyn o bryd nid oes angen i'r pobl sy'n gweithio ym maes blynyddoedd cynnar a gofal plant fod wedi'u cofrestru yng Nghymru.

Efallai na fydd gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n newydd i Gymru wedi cofrestru â chorff rheoleiddio o'r blaen. Prif bwrpas cofrestru yw diogelu'r cyhoedd gan ei fod yn sicrhau mai dim ond y rhai sy'n gymwys i wneud hynny sy'n gallu darparu gofal a chymorth mewn swyddi sydd â gofyniad i gofrestru.

Mae cofrestru gyda ni yn golygu eich bod chi'n rhan o weithlu proffesiynol ac yn gallu dangos bod gennych y sgiliau a'r wybodaeth sy'n hanfodol i ddarparu gofal a chymorth da i bobl Cymru.

Dysgwych mwy am [beth yw cofrestru](#) a pham rydym ni'n gofyn i staff gofrestru yma.

Dyma wybodaeth am [gymwysterau a ffyrdd eraill o gofrestru](#). Dylai eich cyflogwr hefyd eich helpu i gofrestru.

Codau Ymarfer Proffesiynol

Ar ôl i weithiwr gofrestru gyda ni, bydd gofyn i chi ddilyn y [Codau Ymarfer Proffesiynol](#).

Mae gennym ni Cod Ymarfer Proffesiynol, sef cyfres o reolau, neu safonau, y mae'n rhaid i weithwyr gofal proffesiynol eu dilyn er mwyn cadw unigolion a'u hunain yn ddiogel ac yn iach. Rhaid i bob gweithiwr gofal cymdeithasol yng Nghymru ddilyn y cod hwn.

Dylech chi fod yn gyfarwydd â'r codau ymarfer os ydych chi'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru. Pan fyddwch chi'n gwneud cais i gofrestru, gofynnir i chi gadarnhau eich bod wedi darllen y cod ac y byddwch yn ei ddilyn yn eich gwaith gan ei

fod yn nodi'r disgwyliadau a'r safonau y dylech chi eu dilyn.

Efallai y bydd eich cyflogwr hefyd yn cyfeirio at y cod yn ei bolisiâu.

Ceir [canllawiau ymarfer](#) hefyd ar gyfer y rhan fwyaf o rolau ym maes gofal cymdeithasol. Bydd eich cyflogwr yn defnyddio'r canllawiau ymarfer i'ch helpu i fodloni'r safonau yn y Cod Ymarfer Proffesiynol. Ceir canllawiau esboniadol hefyd ynghylch defnyddio cyfryngau cymdeithasol a bod yn agored ac yn onest pan fydd pethau'n mynd o'i le.

Addasrwydd i ymarfer

Mae gennym ni weithlu gofal cymdeithasol ymroddedig iawn yng Nghymru, sy'n darparu gofal rhagorol bob dydd i'r bobl sy'n byw yma. Ond weithiau mae pryderon yn cael eu codi i ni.

Fel rhan o'n cyfrifoldeb i sicrhau bod gweithwyr gofal cymdeithasol sydd ar y [Gofrestr](#) yn meddu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r cymeriad i wneud eu gwaith yn ddiogel ac effeithiol, rydym ni'n ymchwilio i bryderon am weithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig.

Mae rhagor o wybodaeth am y [broses addasrwydd i ymarfer ar ein gwefan](#).

Gofal Cymdeithasol Cymru

Gallwch chi ddysgu mwy am Gofal Cymdeithasol Cymru a'n rôl ni [yma](#).

Mae gennym ni nifer o adnoddau ar gael ar [ein gwefan](#) i'ch helpu a'ch cefnogi chi yn eich gyrfa ym maes gofal cymdeithasol yma yng Nghymru.

Y Grŵp Gwybodaeth

Mae gennym ni wasanaeth ymchwil, data, arloesi a gwella ar gyfer gofal cymdeithasol o'r enw [Y Grŵp Gwybodaeth](#). Yno, cewch yr ymchwil a'r data diweddaraf, canllawiau ar hyfforddiant, cyfleoedd i gydweithio, a chyngor ar y cymorth sydd ar gael.

Mae [gwefan y Grŵp Gwybodaeth](#) yn rhywle lle gall pobl sy'n darparu ac yn defnyddio gofal drafod y pynciau sy'n bwysig iddyn nhw, rhannu eu gwybodaeth, a magu hyder. Ein nod yw cydweithio i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i ofal cymdeithasol.